

CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR BRO LLANGELEL
2020

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol Nos Lun, Mehefin 29ain 2020 trwy gyfarfod Zoom am 7.30y.h

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

PRESENNOL: Cyng.- Marc Rees (Cadeirydd), Jamie Ayres, Delyth Evans, Richard Evans, Aled Eynon, Ken Howell. Brenda Jones, Dilwyn Smith, Adrian Thomas, Clerc – Stella Jones

Heddlu – dim i adrodd i'r heddlu

1. 06/20 YMDDIHEURIADAU: Cyng, John Crossley, John Wigley, Christopher Jones .

2. 06/20 CADARNHAU COFNODION 2019:

Roedd y cofnodion wedi ei cadarnhau yng nghyfarfod 24:6:2019 Cynigydd: Cyng. J Ayres
Eilydd: Cyng. K Howell

3. 06/20 ETHOL CADEIRYDD:-

Cynigwyd y Cyng. M Rees gan Cyng. K Howell ac Eiliwyd gan Cyng. A Thomas. **Etholwyd Cyng. M Rees**

4. 06/20 ETHOL IS-GADEIRYDD:-

Cynigwyd Cyng. D Evans yn is Gadeirydd gan Cyng. B Jones ac Eiliwyd gan Cyng. D Smith **Etholwyd Cyng. D Evans.**

5. 06/20 LWFANS Y CADEIRYDD:

Am y flwyddyn 2020 – 2021 y lwfans o £500 i'w dalu ar ddechrau ei th/dymor yn y gadair, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

6. 06/20 CYFLOG Y CLERC: Penderfynwyd gadael y cyflog yn £600 y mis

7. 06/20 MANTOLEN 2019 – 2020:

Derbyniwyd y fantolen wedi ei archwilio a'i chael yn gywir gan yr Archwilydd Mewnol – Mrs Ann James
Cynigydd – Cyng. D Evans Eilydd – Cyng. A Thomas

8. 06/20 APWYNTIO ARCHWILYDD MEWNOL am 2020-21:

Cytunwyd i ofyn i Mrs Ann James o Gapel Iwan i fod yn Archwilydd Mewnol eto am y flwyddyn 2020-21.

9. 06/20 CYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Mae cyfnod D Smith fel llywodraethwr ysgol Penboyr yn dod i ben ar 3/7/20 a J Wigley yn Brynsaron ar y 17/7/2020 – y ddau yn barod i barhau a'r cyfrifoldeb.

Ail etholwyd pawb 'en bloc'

Neuadd y Ddraig Goch - Cyng. Ken Howell

Parc Puw Drefach - Felindre - Cyng. Ken Howell

Llywodraethwyr Bryn Saron - Cyng. John Wigley

Llywodraethwyr Penboyr - Cyng. Dilwyn Smith

Y Pwerdy Llandysul - Cyng. Jamie Ayres

Clwb Garddio – Cyng. John Wigley

Parc Pentrecwrt – Cyng. Ken Howell

Pwyllgor Llifogydd Llandysul – Cyng. Adrian Thomas

10. 06/20 MATERION CYFANSODDIADOL:

i. Cytunwyd i dderbyn y cynnig bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar nos Lun olaf bob mis am 7.30y.h arwahan i fisoedd Awst a Rhagfyr pan na fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Ym mis Mai os bydd y dydd Llun olaf yn cwmpo ar Wyl y Banc bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y nos Lun wythnos cynt. Yr un peth i ddigwydd os bydd unrhyw nos Lun cyfarfod arall, yn ystod y flwyddyn, yn syrthio ar Wyl y Banc yr un fydd y drefn.

Dyddiadau Cyfarfodydd 2020/21

2020:- Mehefin 29ain, Gorffennaf 27ain, Medi 28ain, Hydref 26ain, Tachwedd 30ain,

2021:- Ionawr 25ain, Chwefror 22ain, Mawrth 29ain, Ebrill 26ain, Mai 24ain

ii. Unrhyw fater angen gwaith cyfreithiol i gael ei ddelio gyda Agri Advisor, Cyfreithwyr, Stryd y Bont, CN Emlyn

Daeth y rhan yma o'r cyfarfod i ben am 7.55yh

Am weddill yr amser nododd y Clerc bod gwaith cyfreithiol ar Barc Pentrecwrt yn mynd yn ei flaen a gofynnwyd i'r Cadeirydd drefnu i rhywun o'r Clwb Pêl Droed Bargod Rangers i arwyddo dogfennau Caeau Canmlwyddiant. Dwedodd y Clerc bod rhai taliadau wedi gorfod eu gwneud ers y cyfarfod diwethaf sef Yswiriant y Cyngor £593.24, Ffioedd Cyfreithiol £360, a Dŵr Cymru £13.50. Daeth y Cyfarfod i ben am 8 o'r gloch